

Arolygiad o Bractis Cyffredinol

(Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Feddygol Pontprennau, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad arolygu: 5 Tachwedd 2018

Dyddiad cyhoeddi: 6 Chwefror 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	22
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	33
4.	Beth nesaf?.....	38
5.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	39
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	40
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	41
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	42

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Feddygol Pontprennau, 33 Kenmare Mews, Caerdydd, CF23 8RJ, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 5 Tachwedd 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o reolwyr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), rheolwr adolygu arall (yn cysgodi'r arolygiad), adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis ac adolygwr lleyg.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o feddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom fod Canolfan Feddygol Pontprennau yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes o ran darparu gwasanaethau.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwnaeth y cleifion sylwadau cadarnhaol am y gwasanaeth roeddent wedi'i gael gan y practis.
- Gwelsom fod y staff yn ymddwyn mewn ffordd gwrtais a phroffesiynol tuag at y cleifion ac ymwelwyr â'r practis
- Roedd y practis newydd gael ei adnewyddu ac roedd hi'n amlwg ei fod yn mewn cyflwr da, yn lân, yn daclus, wedi'i addurno'n ddymunol a bod arwyddion mewnol da wedi'u gosod.
- Dywedodd y staff fod arweinyddiaeth y practis yn dda a'u bod yn hapus yn eu rolau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu a diweddarau polisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu trefniadau presennol y practis yn gywir
- Dangos bod gwiriadau staff addas wedi cael eu cynnal wrth recriwtio staff
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf a bod cofnodion mewn perthynas â hyn yn cael eu cadw yn y practis
- Ffurfioli cyfarfodydd y practis a defnyddio agendâu, a chadw cofnodion o'r cyfarfodydd er mwyn helpu i drosglwyddo gwybodaeth i'r timau.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Ar hyn o bryd, mae Canolfan Feddygol Pontpennau yn darparu gwasanaethau i tua 10,000 o gleifion yn ardaloedd Pontpennau a Phentwyn. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pum partner meddyg teulu (sy'n berchen ar y practis), tair nyrs practis, un cynorthwy-ydd gofal iechyd, rheolwr practis a thîm o staff gweinyddol. Mae'r practis hefyd yn hyfforddi meddygon teulu ac mae ganddo dri meddyg teulu penodol sy'n darparu hyfforddiant. Mae tri meddyg teulu dan hyfforddiant yn y practis ar hyn o bryd.

Roedd gweithwyr proffesiynol a gyflogir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn darparu gwasanaethau cymorth clinigol eraill yn y practis hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys nyrsys ardal, ymwelwyr iechyd, bydwragedd, fferylllydd a chwmselydd rhoi'r gorau i smygu.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Gwasanaethau meddygol cyffredinol
- Mân lawdriniaethau
- Clinig i fabanod a phlant a chlinig i bobl ifanc¹
- Pwysedd gwaed ac asesu'r risg o glefyd y galon
- Clinig asthma a chlinig diabetes
- Cynllunio teulu a phroffion ceg y groth

¹ Clinig i bobl ifanc - Mewn ymateb i anghenion iechyd yr ardal, mae Nyrs y Practis yn hapus i weld pobl ifanc er mwyn trafod pryderon iechyd, gan gynnwys iechyd rhywiol, yn gwbl gyfrinachol (yn ôl disgrisiwn clinigol y nyrs).

- Cyngor teithio a brechiadau
- Rhwymynnau a thynnu pwythau
- Chwistrellu clustiau
- Fflebotomi (tynnu gwaed ar gyfer profion labordy)
- Gwasanaethau eraill na chânt eu darparu fel rhan o'r GIG (er enghraifft, llenwi ffurflenni hawlio yswiriant).

Er hwylustod, cyfeirir at Ganolfan Feddygol Pontprennau fel y practis drwy gydol yr adroddiad hwn.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwnaeth y cleifion sylwadau cadarnhaol am y staff a'r gwasanaethau a ddarperir yn y practis. Gwelsom fod ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion a bod y gwasanaethau a gynigir gan y practis yn hygyrch i'r cleifion. Fodd bynnag, mae angen ystyried sut y gellir hwyluso mynediad i'r rhai ag anawsterau symudedd drwy ddrysau allanol y practis.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom siarad â chleifion hefyd er mwyn cael gwybod am eu profiadau yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 41 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn gleifion hirdymor yn y practis (wedi bod yn glaf am dros ddwy flynedd).

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r cleifion roi gradd i'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis meddygon teulu hwn. Cafwyd ymatebion cadarnhaol a dywedodd y mwyafrif o'r cleifion fod y gwasanaeth naill ai'n ardderchog neu'n dda iawn. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Rwyf i a'r teulu wedi cael gwasanaeth gwych"

"Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl feddygon, nyrsys a staff cymorth am y gofal ardderchog y maen nhw wedi'i roi i mi a'r teulu dros y 15 mlynedd diwethaf. Rwy'n ddiolchgar i bob un ohonyn nhw."

"Cyflym a da iawn"

Cadw'n iach

Roedd rhywfaint o wybodaeth ysgrifenedig ar gael yn y practis er mwyn helpu'r cleifion a'u gofalu i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth hon yn cael ei chadw mewn cas arddangos

gwydr gyferbyn â desg y dderbynfa, nad oedd i'w weld o'r brif ardal aros. Roedd ystod llawer ehangach o wybodaeth yn cael ei harddangos ar ddwy sgrin arddangos fawr yn y brif ardal aros. Roedd sgrin arddangos yn yr ardal aros ar y llawr cyntaf hefyd, a oedd yn union yr un peth â'r sgriniau arddangos yn y brif ardal aros.

Roedd y sgriniau yn ffynhonnell dda o wybodaeth am hybu iechyd, ymhlith pethau eraill, a gallai'r wybodaeth ar y sgriniau gael ei newid yn ganolog er mwyn arddangos gwybodaeth am unrhyw faterion cyfoes ym maes iechyd y cyhoedd neu ymgyrchoedd iechyd eraill. Fodd bynnag, efallai nad yw'r sgriniau yn ddefnyddiol i'r rhai â nam ar eu golwg am eu bod wedi'u lleoli'n bell o'r ardal oedd eistedd. Hefyd, nid oedd taflenni ar gael i gefnogi'r wybodaeth a oedd i'w gweld yn y cas arddangos gwydr ac ar y sgriniau, i'r cleifion eu darllen wrth iddynt eistedd neu fynd â nhw adref gyda nhw.

Roedd cyngor a gwybodaeth yn benodol i ofalwyr i'w gweld ar yr hysbysfwrdd penodedig yn yr ystafell aros, yn ogystal â'r sgriniau. Roedd gan y practis hyrwyddwr gofalwyr penodedig hefyd. Cawsom ddisgrifiad cryno o'r rôl, a oedd yn cynnwys rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ofalwyr am amrywiol asiantaethau a sefydliadau lleol a allai roi cymorth wrth iddynt ymgymryd â'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd.

Roedd y practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau meddygol cyffredinol a oedd yn anelu at hybu iechyd a llesiant y cleifion. Roedd y gwasanaethau hyn yn cynnwys arweiniad ar ffitrwydd i weithio, cyngor ar gyflyrau meddygol hirdymor fel asthma a diabetes, cyngor teithio, cyngor ar roi'r gorau i smygu a chyngor ar feddyginiaethau penodol fel warfarin².

Roedd gan y practis Gynllun Datblygu da ond cafodd ei gwblhau dros ddwy flynedd yn ôl. Er mai dim ond bob tair blynedd y mae angen i bractisau ddiweddar eu Cynlluniau Datblygu, byddai'n ddoeth i'r practis adolygu ei Gynllun Datblygu er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf ac am ei fod wedi cwblhau gwaith adnewyddu'n ddiweddar. Dylid hefyd adolygu'r cynllun

² Meddyginiaeth sy'n atal y gwaed rhag ceulo yw warfarin. Caiff warfarin ei ragnodi'n aml i bobl sydd wedi cael falf fecanyddol newydd yn y galon, pobl sydd â churiad calon afreolaidd penodol neu pobl sydd â chyflwr sydd wedi'i achosi gan geulad gwaed fel emboledd pwlmonaidd (ceulad gwaed yn yr ysgyfaint). Mae angen i bobl sy'n cymryd warfarin gael profion gwaed rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd y dos cywir.

yn dilyn cais y practis i gau ei chwaer bractis ym Mhentwyn, a gafodd ei wrthod gan y bwrdd iechyd lleol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod gan bob claf fynediad cyfartal at wybodaeth hybu iechyd berthnasol yn y practis
- Bod cyflenwad o daflenni hybu iechyd ar gael i gleifion eu darllen a mynd â nhw adref gyda nhw.

Gofal gydag urddas

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd ac a ddychwelodd holiadur AGIC o'r farn eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis. Gwelsom y staff yn trin y cleifion â chwrteisi a pharch. Fodd bynnag, dywedodd ychydig dros hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym mai dim ond weithiau y gallent weld eu dewis feddyg.

Roedd yr ystafelloedd ymgynghori a'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear a'r llawr cyntaf ac i ffwrdd o'r ardaloedd aros. Gwelsom fod drysau'r ystafelloedd hyn wedi'u cau yn ystod ymgynghoriadau. Roedd hyn yn helpu i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion pan oedd y meddyg teulu neu'r nyrs yn eu gweld. Hefyd, pe bai angen i glaf ddarparu sampl wrin neu garthion, roedd toiled dynodedig ar gael wedi'i leoli ar wahân i'r prif doiledau yn y dderbynfa.

Cadarnhaodd staff y practis y gallai'r cleifion ofyn i hebryngwr fod yn gwmni iddynt yn ystod eu hymgyngoriadau. Nod defnyddio hebryngwyr yw diogelu cleifion a staff gofal iechyd pan gynhelir archwiliadau personol o'r cleifion. Dywedwyd wrthym hefyd y disgwyliwyd y byddai'r meddygon teulu yn cynnig gwasanaeth hebryngwr o dan amgylchiadau priodol.

Roedd gwybodaeth am hebryngwyr i'w gweld yn y cas arddangos yn y brif ardal aros ac ar y sgriniau hefyd, yn hysbysu cleifion y gallent ofyn i hebryngwr fod yn gwmni iddynt. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn gynharach, efallai na fyddai phobl â nam ar eu golwg yn ymwybodol o hyn. Felly, byddai'n fuddiol i'r cleifion pe bai'r wybodaeth hon yn cael ei harddangos ar ffurf posteri yn agosach i'r ardal eistedd. Dylai'r wybodaeth hon hefyd fod ar gael yn yr ystafelloedd ymgynghori a'r ystafelloedd triniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod pob claf yn ymwybodol bod modd iddo gael hebryngwr cyn iddo gael ymgynghoriad neu driniaeth, yn yr ystafell aros a'r ystafelloedd perthnasol
- Bod gwybodaeth am hebryngwyr yn cael ei harddangos yn glir i bob claf ei gweld yn yr ardal aros a'r ystafelloedd ymgynghori/triniaeth.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gan y practis wefan a oedd yn llawn gwybodaeth, a oedd yn hawdd i'w gwe-lywio ac a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a ddarperir gan y practis. Roedd gwybodaeth am y staff a oedd yn gweithio yn y practis a gwybodaeth arall am ofal iechyd ar gael hefyd. Yn ogystal, gallai'r tudalennau gael eu cyfieithu i fwy na 100 o ieithoedd, sy'n fenter ardderchog. Roedd y wefan hefyd yn hyrwyddo Fy Iechyd Ar-lein. Gall hyn helpu'r cleifion i wneud apwyntiadau a gwneud ceisiadau am bresgripsiynau amlroddadwy, sydd ill dau yn gallu bod o fudd i'r cleifion ac i'r practis.

Roedd y practis wedi llunio taflen wybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y practis a'r gwasanaethau a gynigir. Roedd y daflen hefyd yn cyfeirio at y ddeddf diogelu data a diogelwch data cleifion. Fodd bynnag, er bod y daflen yn dweud bod gweithdrefn gwyno ar waith fel rhan o system y GIG, dylid diweddarau'r daflen i gynnwys cyfeiriad clir a chywir at broses Gweithio i Wella³ GIG Cymru.

O fewn y practis, nid oedd gwybodaeth i gleifion am sut i godi pryder yn cael ei harddangos yn glir i'r cleifion. Dim ond un poster maint A4 a oedd ar gael am

³ 'Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Mae pryderon yn cynnwys materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru.

broses Gweithio i Wella GIG Cymru, a hynny yn y cas arddangos gwydr. Nid oedd hyn yn ddigonol i hysbysu pob claf am y broses. Yn ogystal, nid oedd taflenni Gweithio i Wella ar gael yn gyfleus i'r cleifion eu darllen a mynd â nhw adref gyda nhw. Dywedwyd wrthym pe byddai claf am gael taflen, y gallai ofyn am un wrth y dderbynfa. Nid oedd hyn yn ddelfrydol oherwydd efallai nad oes llawer o'r cleifion yn ymwybodol o fodolaeth y broses na'r taflenni.

Gwnaethom adolygu cofnodion meddygol sampl o'r cleifion. Roedd y rhain yn dangos yn glir bod gwybodaeth lafar wedi'i rhoi i'r cleifion i'w helpu i ddeall eu cyflyrau meddygol, yr ymchwiliadau cysylltiedig a'r trefniadau i reoli eu salwch neu gyflwr. Gwelsom hefyd fod trefniadau addas ar waith i gael cydsyniad gan y cleifion.

Roedd polisi ar waith i gael cydsyniad gan y cleifion ond mae angen ei adolygu a'i ddiweddarau gan nodi'r dyddiadau a'r fersiynau ar y polisi. Byddai hyn yn sicrhau bod gan y practis y fersiwn fwyaf diweddar a bod y polisi'n cael ei adolygu'n briodol. Rydym wedi rhoi sylw i adolygu'r holl bolisiâu, fel y disgrifir uchod, yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod y daflen wybodaeth i gleifion yn cael ei diweddarau er mwyn cynnwys cyfeiriad perthnasol at broses Gweithio i Wella GIG Cymru
- Bod pob claf yn ymwybodol o broses Gweithio i Wella drwy arddangos y wybodaeth hon yn briodol yn y practis
- Bod taflenni gwybodaeth am Gweithio i Wella ar gael yn gyfleus i'r cleifion eu darllen a mynd â nhw adref gyda nhw.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall.

Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent yn y penderfyniadau a wneir am eu gofal.

Cadarnhaodd staff y practis y gwnaethom siarad â nhw bod dolen sain weithredol ar gael. Defnyddir y ddolen sain hon er mwyn helpu cleifion ag anawsterau clywed i gyfathrebu â'r staff. Cadarnhaodd y staff hefyd y gallent ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu er mwyn helpu i gyfathrebu â chleifion nad oeddent yn siarad Saesneg, er mwyn helpu'r cleifion i ddeall yr hyn a oedd yn cael ei ddweud yn ystod eu hymgyngoriadau gyda'r meddyg teulu neu'r nyrs ac fel arall. Cawsom wybod hefyd fod y cleifion yn cael eu hannog i ddod â rhywun gyda nhw mewn achosion lle roeddent yn disgwyl dod ar draws rhwystrau iaith neu pe bai'n anodd cael gafael ar y gwasanaeth cyfieithu.

Roedd arwyddion da ar y waliau ar gyfer pob rhan o'r practis er mwyn cyfeirio'r cleifion yn glir at yr ystafelloedd a'r cyfleusterau eraill. Roedd yr arwyddion yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) hefyd. Yn ogystal, cawsom wybod bod y practis yn bwriadu gosod arwyddion dwyieithog ychwanegol a fyddai'n hongian o'r nenfwd, yr wythnos ar ôl ein harolygiad, fel rhan o'r gwaith i adnewyddu'r practis. Y nod oedd sicrhau y gallai'r cleifion ddilyn yr arwyddion hyn yn haws yn hytrach na'r arwyddion ar y waliau yn unig.

Cawsom wybod am y trefniadau ar gyfer sicrhau bod gohebiaeth neu ddeunydd cyfathrebu a oedd yn dod i mewn i'r practis yn cael eu darllen a bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd. Pe bai angen rhoi sylw brys i'r materion, cawsom wybod y byddai'r staff gweinyddol yn ysgrifennu'r wybodaeth ar nodiadau 'post-it' ac yn gosod y rhain ar nodiadau'r meddygon teulu a'r presgripsiynau y byddent yn eu cwblhau, pan roeddent y tu allan i'w hystafelloedd ymgynghori. Roedd perygl na fyddai gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo drwy ddefnyddio'r dull hwn oherwydd gallai'r nodiadau ddod yn rhydd ac nid oedd proses gadarn ar waith i sicrhau bod y meddyg teulu wedi darllen y wybodaeth hon ac wedi gweithredu arni.

Gwnaethom hefyd ystyried y trefniadau a oedd ar waith mewn achosion pan fo angen i'r practis gysylltu â'r cleifion mewn perthynas â gofynion ychwanegol. Er enghraifft, dychwelyd er mwyn cael apwyntiad dilynol, prawf gwaed, neu gael triniaeth/presgripsiwn, ar sail canlyniadau profion. Dywedwyd wrthym y byddai staff y practis naill ai'n ffonio'r claf/gofalwr neu'n ysgrifennu atynt gan ddweud wrthynt fod angen iddynt drefnu apwyntiad neu gasglu presgripsiwn, er enghraifft. Ar ôl i'r staff gwblhau'r cyswllt dilynol cyntaf hyn â'r claf, roeddent o'r farn bod yr achos wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, nid oedd proses ddilynol ychwanegol ar waith i sicrhau bod y claf wedi cael apwyntiad neu wedi casglu ei bresgripsiwn er mwyn dechrau'r driniaeth angenrheidiol. Os na chaiff y

broses ei chwblhau, gallai hyn beryglu diogelwch y cleifion a'u gallu i gynnal eu llesiant.

Wrth drafod â rhai aelodau o'r staff, ar ôl iddynt roi gwybod i'r claf am yr hyn yr oedd angen iddo ei wneud, roeddent yn teimlo mai cyfrifoldeb y claf oedd ymateb a gwneud y trefniadau angenrheidiol. Gwnaethom fynegi ein pryderon ynglŷn â hyn i reolwr y practis yn ystod yr arolygiad. Rhoddodd sicrwydd llafar i ni y byddai'n adolygu'r broses hon er mwyn sicrhau bod proses gadarnach yn cael ei rhoi ar waith cyn gynted â phosibl.

Gwnaethom edrych ar sampl o gynodebau rhyddhau cleifion a dderbyniwyd gan ysbytai lleol. Yn ogystal, dangosodd ein trafodaethau ag uwch aelodau o'r staff y gellid gwella ansawdd rhywfaint o'r wybodaeth a dderbynnir am gleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae angen i'r bwrdd iechyd drafod hyn gyda'r ysbytai perthnasol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod y broses i hysbysu meddygon am faterion y mae angen rhoi sylw brys iddynt drwy ddefnyddio nodiadau 'post-it' yn cael ei hadolygu, er mwyn sicrhau trefniadau cyfathrebu cadarn a sicrhau bod camau priodol wedi cael eu cymryd mewn perthynas â gofal a thriniaeth y cleifion
- Bod proses ddilynol ychwanegol gadarn yn cael ei rhoi ar waith a bod modd ei harchwilio, er mwyn sicrhau bod cleifion wedi cael apwyntiad dilynol neu wedi casglu eu presgripsiwn er mwyn dechrau'r driniaeth angenrheidiol, lle bo hynny'n berthnasol
- Bod y dogfennau a'r wybodaeth a ddarperir fel rhan o gynodebau rhyddhau'r ysbytai i feddygon teulu yn cael eu hadolygu, ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd Lleol, er mwyn sicrhau trefniadau cyfathrebu cadarn.

Gofal amserol

Mae'r practis ar agor i'r cleifion rhwng 8:30am a 5:30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Fodd bynnag, nid oes apwyntiadau ar gael rhwng 12:30pm a 2:30pm

ond mae'r llinellau ffôn a'r drysau ar agor o hyd. Roedd cymysgedd o apwyntiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw (arferol) ac apwyntiadau ar y diwrnod (brys) ar gael. Mae'n rhaid i'r cleifion ffonio'r feddygfa o 8:00am ymlaen er mwyn cael apwyntiad ar y diwrnod gan nad yw'r practis yn agor ei ddrysau nes 08:30am. Dim ond cleifion ag apwyntiadau a oedd yn cael eu gweld yn y prynhawn gyda'r amseroedd yn amrywio o 2.30 i 5.20pm. Ar brynhawn dydd Mercher a dydd Gwener, caiff apwyntiadau eu neilltuo ar gyfer argyfyngau meddygol rhwng 3.45 a 5.30pm.

Nid yw gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau'r Bwrdd Iechyd yn dechrau nes 6.30pm, felly, mae cyfnod o awr pan na all y cleifion weld meddyg teulu yn y practis na chael gafael ar un drwy'r gwasanaeth y tu allan i oriau. Nid oedd gwybodaeth glir ar gael am sut y gallai'r cleifion weld/cyfathrebu â meddyg teulu rhwng 5.30pm a 6.30pm. Roedd hyn yn golygu bod risg y gallai cleifion, mewn sefyllfa frys, fynd i'r feddygfa yn bersonol pan fo'r drysau ar glo, yn hytrach na ffonio rhif ffôn y feddygfa i gael cyngor dros y ffôn.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn fodlon iawn neu'n gymharol fodlon ar oriau agor y practis. Fodd bynnag, dywedodd bron i chwarter o'r cleifion nad oedd yn hawdd iawn neu nad oedd yn hawdd o gwbl cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Yn holiaduron AGIC, gofynnwyd i'r cleifion sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Cododd nifer o'r cleifion rai pryderon cyffredin am gael gofal amserol. Roedd y rhain yn ymwneud yn benodol ag anawsterau gwneud apwyntiad a diffyg lleoedd parcio yn y practis. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Mwy o apwyntiadau ar gael ar fyr rybudd. Rwy' wedi gorfod aros mis i gael apwyntiad."

"Mwy o apwyntiadau ar gael i'w trefnu (mae apwyntiadau brys yn hawdd i'w cael ond mae llai o apwyntiadau ar gael i'w trefnu ymlaen llaw)"

"Mae'r gwasanaeth yn mynd yn waeth ac yn fwy cyfyngedig, yn enwedig lleoedd parcio. Ar wahân i apwyntiad â'r meddyg teulu, allwn ni ddim parcio'r car yn y maes parcio yn ystod unrhyw ymweliad arall â'r feddygfa. Am y rheswm hwn, bu'n rhaid i mi fynd yn ôl adref am nad oedd lle parcio ar gael y tu allan, er bod maes parcio'r feddygfa yn hanner gwag"

Mae nyrsys y practis yn cynnal nifer o glinigau rheoli clefydau cronig er mwyn monitro cleifion a rhoi cyngor iddynt ar reoli eu cyflyrau. Nod y gwasanaeth hwn

yw lleihau'r galw am apwyntiadau gyda'r meddygon teulu a sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol. Byddai hyn yn rhoi mwy o amser i'r meddygon teulu weld y cleifion hynny sydd â chyflyrau iechyd mwy cymhleth.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio system wrth dderbyn ymholiadau dros y ffôn am apwyntiadau. Roedd y meddygon teulu a'r fferylllydd wedi datblygu siart llif er mwyn helpu'r staff gweinyddol sy'n ateb y galwadau i gyfeirio'r claf at yr ymarferydd neu'r gwasanaeth gofal iechyd mwyaf priodol, fel y nyrs, y meddyg teulu, y fferylllydd neu'r ysbyty yn uniongyrchol. Roedd hon yn fenter dda i atal cleifion rhag trefnu apwyntiadau diangen â'r meddygon teulu, gan olygu bod mwy o apwyntiadau ar gael i'r rhai sydd eu hangen.

Lluniwyd y system hon er mwyn helpu'r staff gweinyddol i ddyrannu'r apwyntiad i'r ymarferydd mwyaf perthnasol. Roedd y practis yn cynnal ymweliadau cartref yn achos cleifion a oedd yn rhy sâl i ddod i'r practis a'r rhai a oedd yn gaeth i'w cartrefi. Roedd hefyd yn cynnal ymweliadau ward wythnosol â'r cartref gofal dynodedig, sef Tŷ Enfys.

Roedd trefniadau ar waith drwy'r bwrdd iechyd i ddarparu gofal meddygol brys y tu allan i oriau. Fodd bynnag, dywedodd tua un o bob tri o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym na fyddent yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau.

Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff mai proses anffurfiol oedd hon yn gyffredinol, er bod ail farn fewnol yn cael ei cheisio. Y nod yw sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal parhaus mwyaf priodol gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mwyaf priodol.

Dywedwyd wrthym fod atgyfeiriadau nad ydynt yn frys yn cael eu gwneud o fewn 72 awr ar ôl dod i gytundeb â'r claf. Roedd atgyfeiriadau brys yn cael eu cwblhau'n gynt, er enghraifft, roedd y practis yn defnyddio protocolau ar gyfer achosion brys lle yr amheuir bod y claf yn dioddef o ganser er mwyn sicrhau y câi'r cleifion ofal a thriniaeth amserol. Roedd pob atgyfeiriad o'r fath yn cael ei anfon drwy drefniadau trosglwyddo electronig Cymru Gyfan. Cadarnhaodd staff y practis fod system ar waith i sicrhau bod gwasanaethau gofal eilaidd (ysbytai) wedi cael atgyfeiriadau a'u bod wedi gweithredu arnynt.

Cawsom wybod fod gwasanaeth fflebotomi yn cael ei gynnig gan y practis a ddarperir gan gynorthwy-ydd gofal iechyd y practis. Os nad yw'r cynorthwy-ydd ar gael, byddai nyrs y practis, neu'r meddygon, yn cymryd samplau o waed y cleifion er mwyn sicrhau gofal amserol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod yr apwyntiadau sydd ar gael ar y diwrnod a'r apwyntiadau y gellir eu trefnu ymlaen llaw yn cael eu hadolygu
- Bod pob claf yn gwybod sut i ddefnyddio'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau
- Bod y ffaith bod gwasanaeth meddyg teulu ar gael dros y ffôn yn unig rhwng 5.30pm a 6.30pm yn cael ei chyfleu'n glir i gleifion y feddygfa am nad yw gwasanaeth y tu allan i oriau'r bwrdd iechyd yn agor nes 6.30pm.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd cyfleusterau'r cleifion wedi'u lleoli ar lawr daear a llawr cyntaf y practis. Wrth fynd i mewn i'r practis, roedd drysau gwydr barugog trwm y mae'n rhaid eu hagor â llaw. Nid oedd unrhyw gynlluniau ar y gweill i osod drysau awtomatig fel rhan o'r prosiect ailddatblygu diweddar.

Roedd nifer fach o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo nad oedd yn hawdd iawn neu nad oedd yn hawdd o gwbl mynd i mewn i adeilad y practis.

Gan fod drysau'r fynedfa yn farugog ac yn eithaf trwm i'w hagor, nodwyd bod risg y gallai cleifion eiddil neu gleifion mewn cadair olwyn a oedd yn ymweld â'r practis ar eu pen eu hunain, ei chael hi'n anodd agor y drws. Hefyd, ni fyddai staff o fewn y practis yn gallu gweld y cleifion drwy'r gwydr barugog i wybod eu bod yn ceisio dod i mewn ac, ar ben hynny, nid oedd staff y dderbynfa yn wynebu'r drysau.

Gwnaethom drafod y problemau posibl hyn ag uwch aelodau o'r staff a ddywedodd wrthym, pe baent yn gwybod bod claf â phroblemau symudedd yn dod i'r practis, y byddent yn gwybod tua pryd y byddai'n cyrraedd ac yn gallu agor y drysau ar ei gyfer. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt beth fyddai'n digwydd pe bai rhywun yn cyrraedd heb apwyntiad, dywedwyd y byddai'n rhaid iddynt gnocio ar y drws er mwyn dod i mewn. Dywedodd uwch aelodau o'r staff wrthym y byddent yn trafod y mater hwn â'r bwrdd iechyd er mwyn ystyried

opsiynau i gael cymorth i osod drysau awtomatig er budd y cleifion ac ymwelwyr â'r practis.

Roedd gan y ddesg yn y brif dderbynfa lefel isel a fyddai'n galluogi unigolyn mewn cadair olwyn i siarad yn hawdd â staff y dderbynfa. Roedd y drysau y tu mewn i'r adeilad yn ddigon llydan i allu defnyddio cadeiriau olwyn, sgwteri modur a chadeiriau gwthio yn ddiogel. Fodd bynnag, gan fod pob un o'r drysau yn ddrysau diogelwch tân a oedd newydd gael eu gosod, roeddent yn drwm ac yn eithaf anodd i rai o'r cleifion eu hagog. Roedd lifft ar gael fel y gallai'r cleifion gyrraedd y llawr cyntaf yn hawdd.

Roedd lleoedd parcio ar gael i'r cleifion drwy rwystr electronig (yng nghefn y practis) ond dim ond nifer fach iawn o leoedd a oedd ar gael (tua 10). Felly, nid oedd digon o leoedd parcio ar gael i'r holl gleifion a oedd yn ymweld â'r practis. Roedd lleoedd parcio ychwanegol ar gael hefyd y tu ôl i faes parcio'r cleifion (gyda nifer debyg o leoedd) i'r staff eu defnyddio. O flaen y practis, roedd llinellau melyn dwbl ar ddwy ochr y ffordd, felly ni allai'r cleifion barcio yno. Yn ogystal, nid oedd fawr ddim lleoedd parcio ar gael yn yr ardal breswyl gyfagos. Adlewyrchwyd hyn mewn llawer o holiaduron y cleifion, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, ac wrth drafod â'r cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad.

Roedd toiled i ddynion a menywod ei ddefnyddio ar lawr daear y practis ac ystafell i newid cewynnau babanod. Roedd toiled dynodedig i bobl anabl hefyd. Roedd hyn yn hybu annibyniaeth cleifion â phroblemau symudedd. Roedd toiledau cleifion ar gael ar y llawr cyntaf hefyd, ond nid oeddent yn addas i gadeiriau olwyn.

Gwelsom fod anghenion hirdymor rhai o'r cleifion yn cael eu monitro'n effeithiol. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer y cleifion hynny â diabetes, asthma neu bwysedd gwaed uchel.

Gwnaethom adolygu'r ffurflen gofrestru a ddefnyddir ar gyfer cleifion newydd. Er y byddai'r ffurflen yn cofnodi problemau o ran sgiliau darllen ac ysgrifennu neu broblemau cyfathrebu eraill, mae'n rhaid cynnwys namau eraill fel problemau symudedd, anabledau a phroblemau hygrychedd a allai fod yn berthnasol. Byddai hyn yn hysbysu tîm y practis am yr anawsterau hyn cyn i'r claf gyrraedd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod drysau'r fynedfa yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau y gall pob claf fynd i mewn i'r practis yn ddiogel ac yn annibynnol
- Bod ystyriaeth deg yn cael ei rhoi i gyfleusterau parcio i'r cleifion yn y practis, yn enwedig y rhai â phroblemau symudedd
- Bod y ffurflen cofrestru cleifion yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau bod pob nam yn cael ei gofnodi, fel problemau symudedd.

Hawliau pobl

Gwelsom fod hawliau pobl yn cael eu hybu yn y practis a bod trefniadau ar waith i ddiogelu hawliau pobl i breifatrwydd, a gwelsom fod y staff yn trin y cleifion ag urddas, parch a charedigrwydd.

Gwelsom y hefyd gallai perthnasau neu ofalwyr aros gyda'r cleifion yn y practis a thrwy gydol eu hasesiad a'u triniaeth os oeddent yn dymuno. Cadarnhaodd staff y practis y gallai'r cleifion ofyn i hebryngwr fod yn gwmni iddynt yn ystod eu hymgyngoriadau.

Gwrando a dysgu o adborth

Yn y brif dderbynfa, roedd blwch â chlo arno lle gallai'r cleifion wneud sylwadau ac awgrymiadau. Fodd bynnag, nid oedd peniau na phapur wrth law i'r cleifion gofnodi eu sylwadau. Dywedodd y staff wrthym y gallai'r cleifion ofyn am bapur a phen yn y dderbynfa at y diben hwn. Gallai fod yn fuddiol hysbysu'r cleifion y gallant ofyn wrth y dderbynfa am yr adnoddau hyn.

Nid oedd unrhyw system ar waith ar y pryd i gofnodi pryderon/cwynion llafar, ond roedd cwynion ffurfiol neu ysgrifenedig yn cael eu cofnodi. Yn ogystal, nid oedd amseroedd ymateb i bryderon y cleifion yn cydymffurfio â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru. Ychydig iawn o wybodaeth a oedd ar gael i gleifion am Gweithio i Wella, fel y nodwyd eisoes.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Ei fod yn datblygu system i gofnodi pryderon neu gwynion llafar gan gleifion neu eu perthnasau/gofalwyr ac ymateb iddynt, yn unol â phroses Gweithio i Wella.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom fod gan y practis drefniadau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd y nodiadau yng nghofnodion meddygol electronig y cleifion yn glir ac yn gryno. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai gwelliannau yr oedd eu hangen.

Roedd y gwelliannau'n ymwneud â'r nodiadau a wneir mewn perthynas â meddyginiaeth, cysylltu â chleifion ar gyfer apwyntiadau neu driniaethau dilynol, digwyddiadau arwyddocaol a rhannu rhybuddion am ddiogelwch cleifion.

Mae angen rhoi rhagor o ystyriaeth hefyd i lywodraethu gwybodaeth yn y dderbynfa a'r swyddfa y tu ôl i'r dderbynfa, er mwyn cadw cyfrinachedd y cleifion.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd dau lawr y practis wedi cael eu hadnewyddu'n gyfan gwbl yn ddiweddar. Yn ôl yr hyn a welwyd, roedd y safle cyfan yn lân, yn olau ac yn drefnus ac roedd arwyddion da i'w gweld. Yn ogystal, cynlluniwyd pob ystafell driniaeth fel bod modd ei glanhau'n effeithiol. Ni nodwyd risgiau amgylcheddol amlwg i ddiogelwch y cleifion na'r staff. Fel rhan o'r gwaith adnewyddu, roedd y practis wedi prynu rhai gwelyau archwilio bariatrig⁴ i'w defnyddio gyda chleifion mawr iawn.

⁴Cangen feddygaeth sy'n delio ag achosion gordewdra a ffyrdd o atal a thrin gordewdra yw bariatreg.

Roedd digon o seddau i'r cleifion a'u teuluoedd pe bai'r ddwy ardal aros yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelwyd y bu'n rhaid i wyth person sefyll yn y brif dderbynfa ar y llawr daear am nad oedd y practis wedi agor yr ystafelloedd ar y llawr cyntaf eto.

Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff fod capasiti o fewn tîm y practis i gyflawni rolau eu cydweithwyr. Roedd hyn yn golygu bod darpariaeth wrth gefn i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal pe bai aelod o staff yn absennol am gyfnod hirdymor.

Dywedodd uwch aelodau o'r staff fod trefniadau ar waith i ddefnyddio'r practis cangen cyfagos (Canolfan Feddygol Dewi Sant ym Mhentwyn) pe na allai'r practis ddefnyddio'r adeilad presennol. Er enghraifft, digwyddodd hyn pan roedd Canolfan Feddygol Pontprennau yn cael ei hadnewyddu. Byddai'r meddygon teulu a'r staff gweinyddol yn gweithio rhwng y ddau bractis.

Roedd gan y practis gynllun parhad busnes ond roedd angen ei ddiweddarau.

Gwelsom nad oedd pob aelod o dîm y practis a oedd yn defnyddio offer cyfrifiadurol am sawl awr bob dydd wedi cwblhau hyfforddiant Offer Sgrin Arddangos (DSE) nac wedi cwblhau asesiadau risg unigol⁵. Trafodwyd hyn gydag uwch aelodau o'r tîm gan fod asesiadau risg o'r fath yn ofynnol yn ôl deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

O ganlyniad i'r gwaith adnewyddu, roedd y practis wedi trefnu'n ddiweddar bod sefydliad allanol yn ymweld â'r practis i wirio'r offer diogelwch tân a sicrhau bod asesiadau risg a pholisïau diogelwch tân ar waith. Roedd yr holl offer wedi cael profion diogelwch trydanol yn ddiweddar.

⁵ Mae'n ofynnol i gyflogwyr ddiogelu gweithwyr rhag y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â gweithio ag offer sgrin arddangos (DSE), megis cyfrifiaduron personol, gliniaduron, llechi a ffonau deallus. Mae Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Sgrin Arddangos) 1992 yn gymwys i weithwyr sy'n defnyddio offer o'r fath bob dydd, am gyfnod o awr neu fwy ar y tro.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod y cynllun parhad busnes yn cael ei ddiweddarau
- Bod pob aelod o staff cymwys yn cwblhau asesiad risg ac yn cael hyfforddiant ar ddefnyddio offer sgrin arddangos.

Atal a rheoli heintiau

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lanweithdra'r practis a dywedodd pob un ohonynt a gwblhaodd holiadur fod y safle yn lân iawn yn eu barn nhw.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael mewn rhannau allweddol o'r practis. Roedd cyfarpar diheintio dwylo ar gael yn gyfleus hefyd. Mae hylendid dwylo effeithiol yn helpu i leihau'r risg o groes-heintio.

Roedd yr ardaloedd aros, y coridorau, yr ystafelloedd triniaeth a'r ystafelloedd ymgynghori i gyd yn lân. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol fel menig a ffdogau tafladwy ar gael i'r staff clinigol eu defnyddio er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Cadarnhaodd y staff nyrsio fod cyfarpar diogelu personol bob amser ar gael.

Roedd lloriau, byrddau gwaith a chypyrddau y gellir eu golchi ar gael ym mhob ystafell driniaeth ac ystafell ymgynghori er mwyn sicrhau y gellir eu glanhau'n hawdd ac yn effeithiol. Roedd modd golchi'r lloriau yn yr ardaloedd aros a'r coridorau hefyd.

Gwelsom fod gwastraff domestig (cartref) a gwastraff clinigol (gan gynnwys offer miniog meddygol, fel nodwyddau) wedi'u rhannu mewn cynwysyddion/bagiau lliw gwahanol a phriodol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwaredu'n gywir. Roedd gwastraff clinigol a oedd yn aros i gael ei gasglu yn cael ei storio dan glo er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Cadarnhaodd y staff nyrsio hefyd mai dim ond offerynnau di-haint un-tro a oedd yn cael eu defnyddio yn ystod mân lawdriniaethau. Mae'r rhain yn helpu i atal croes-heintio.

Gallai'r staff nyrsio weld polisi ar atal a rheoli heintiau. Roedd angen adolygu'r polisi hwn er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r trefniadau presennol mewn perthynas â gweithgarwch archwilio rheoli heintiau ac amserlenni glanhau yn

gywir. Er bod y polisi'n cyfeirio at weithdrefnau perthnasol mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, gellid bod wedi cynnwys rhagor o fanylion ac arweiniad i'r staff ar y gweithdrefnau hyn.

Gwelsom dystiolaeth fod cofnodion unigol wedi cael eu cadw ar gyfer pob aelod o staff mewn perthynas â'u statws imiwneiddio Hepatitis B.

Roedd llenni ffabrig wedi'u gosod o amgylch y gwelyau archwilio ym mhob ystafell ymgynghori ac ystafell driniaeth. Nid oedd unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio llenni tafladwy er mwyn helpu i atal neu leihau'r risg o groes-heintio.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod y polisi rheoli heintiau yn cael ei adolygu a'i fod yn cyfeirio at weithdrefnau perthnasol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y practis yn defnyddio llyfr fformiwlâu'r bwrdd iechyd lleol (ac yn croesgyfeirio lle bo angen â Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain⁶) er mwyn cyfeirio at feddyginiaethau penodol, ac roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei defnyddio yn unol â chanllawiau lleol a

⁶ Llyfr cyfeirio fferyllol yn y Deyrnas Unedig yw Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain sy'n cynnwys rychwant eang o wybodaeth a chyngor ar ragnodi a ffarmacoleg, ynghyd â ffeithiau penodol a manylion am lawer o feddyginiaethau sydd ar gael drwy Wasanaeth Iechyd Gwladol y DU. Mae'r wybodaeth yn y llyfr yn cynnwys arwydd(ion), gwrtharwyddion, sgil-ffeithiau, dosiau, dosbarthiad cyfreithiol, enwau a phrisiau fformiwlâu perchenogol a generig sydd ar gael, ac unrhyw bwyntiau nodedig eraill.

chenedlaethol. Roedd hyn yn golygu bod y meddygon teulu yn rhagnodi meddyginiaeth o restr ddewisol o feddyginiaethau cymeradwy.

Roedd fferylllydd yn ymweld â'r practis bob wythnos, drwy drefniadau â'r clwstwr meddygon teulu⁷ yr oedd y practis yn rhan ohono. Byddai'r fferylllydd yn adolygu meddyginiaethau rheolaidd cleifion ac yn cysylltu â'r meddygon teulu lle bo hynny'n briodol pe bai angen gwneud unrhyw newidiadau. Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff fod adolygiadau blynyddol o feddyginiaeth amlroddadwy cleifion yn cael eu cynnal. Lle nodwyd nad oedd y cleifion yn cymryd meddyginiaethau mwyach, cawsom wybod y byddai'r meddyginiaethau hyn yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr presgripsiynau amlroddadwy.

Yn y sampl o gofnodion cleifion a adolygwyd gennym, gwelsom fod y rhesymau dros ragnodi meddyginiaeth wedi cael eu cofnodi. Mae cofnodi'r wybodaeth hon yn golygu ei bod yn haws gwneud penderfyniadau wrth adolygu triniaeth cleifion yn ystod ymgynghoriadau yn y dyfodol. Er bod y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi, gwelsom fod cynnwys y dogfennau'n anghyson ac yn amrywiol. Gallai defnyddio un dull cytûn o weithredu helpu'r meddygon teulu i ddod o hyd i'r wybodaeth hon yn haws. Yn ogystal, nid oedd y cofnodion a adolygwyd gennym bob amser yn cynnwys y rhesymau pam bod claf wedi rhoi'r gorau i gymryd ei feddyginiaeth. Yn yr un modd, byddai cofnodi'r rhesymau hyn yn helpu i lywio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Roedd gan y practis offer a chyffuriau i'w defnyddio pe bai argyfwng yn ymwneud â chlaf (llewygu) yn y practis. Gwelsom fod cofnodion wedi cael eu cadw a oedd yn dangos bod yr offer a'r cyffuriau wedi cael eu gwirio bob mis er mwyn sicrhau eu bod ar gael ac yn barod i'w defnyddio bob amser. Clywsom ddisgrifiad o'r system sydd ar waith i gael offer a chyffuriau newydd. Er bod gwiriadau misol wedi cael eu cynnal, dylai'r practis ystyried cynnal y gwiriadau hyn bob wythnos fel yr argymhellir yng nghanllawiau'r⁸ Cyngor Dadebru (DU).

⁷ Ystyr Clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol. Caiff clystyrau eu pennu gan Fyrddau Iechyd Lleol GIG Cymru. Mae meddygon teulu yn y Clystyrau'n chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith parhaus Rhwydwaith (iechyd) Ardal.

⁸ [Cyngor Dadebru \(DU\) - Quality Standards for cardiopulmonary resuscitation practice and training](#)

Roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant dadebru. Fodd bynnag, roedd hyfforddiant nifer o'r staff wedi dyddio, gyda rhai o'r dyddiadau hyfforddi diwethaf yn dyddio'n ôl 18 neu 24 mis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod clinigwyr yn defnyddio dull cyson i gofnodi rhesymau dros ragnodi meddyginiaeth neu derfynu meddyginiaeth yng nghofnodion meddygol y cleifion
- Bod offer brys yn cael ei wirio a'i gofnodi bob wythnos
- Bod pob aelod o staff y practis yn cwblhau hyfforddiant dadebru blynyddol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefnau ysgrifenedig eraill mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Nod y gweithdrefnau hyn yw hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg.

Disgrifiwyd y trefniadau sydd ar waith i gofnodi a diweddarau gwybodaeth berthnasol am amddiffyn plant ar y system cofnodion cleifion electronig. Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff fod meddyg teulu dynodedig yn y practis yn arwain ar faterion yn ymwneud ag amddiffyn / diogelu plant ac oedolion. Roedd hyn yn golygu bod gan y staff berson cyswllt lleol i roi gwybod iddo am bryderon diogelu a thrafod y pryderon hynny.

Roedd yr arweinydd diogelu dynodedig hefyd yn darparu hyfforddiant diogelu mewnol i'r staff yn y practis. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu. Yn oystal â hyn, hyfforddiant anffurfiol oedd hwn. Roedd pob aelod o'r staff clinigol cofrestredig wedi cael hyfforddiant lefel tri ffurfiol ym maes diogelu.

Dywedwyd wrthym fod y meddyg teulu arweiniol ar gyfer diogelu yn chwilio'r gofrestr amddiffyn plant yn rheolaidd ac yn hysbysu rheolwr y practis am hyn er mwyn sicrhau bod rhybuddion yn cael eu gosod ar y system cleifion electronig neu'u dileu o'r system lle bo hynny'n berthnasol. Roedd ymwelwyr ieuchyd ynghlwm wrth y practis hefyd a disgrifiwyd trefniadau gweithio amlbroffesiynol er mwyn hybu lles a diogelwch plant.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn rhoi gwybod i uwch aelodau o staff y practis pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am les claf.

Ni lwyddodd y practis i ddarparu tystiolaeth i ni i'r lefel briodol bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)⁹ yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff fel rhan o'i drefniadau recriwtio. Rydym yn cyfeirio ymhellach at recriwtio yn adran nesaf yr adroddiad hwn, sef 'Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth'.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ym maes diogelu plant ac oedolion a bod pob aelod o'r staff yn diweddarau ei hyfforddiant yn rheolaidd.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Roedd yr holl ddyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig mewn cyflwr da, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn addas at y diben. Lle bo hynny'n briodol, roeddent wedi cael profion diogelwch trydan hefyd.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff fod digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion yn cael eu cofnodi'n uniongyrchol drwy system gofnodi

⁹ Mae gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn nodi p'un a oes gan unigolyn gofnod troseddol, neu a yw ar restr swyddogol o'r unigolion sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio mewn swyddi lle y gellir dod i gysylltiad â phlant neu oedolion a all fod yn agored i niwed.

electronig fel y gellir eu cynnwys mewn cronfa ddata genedlaethol (y System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu¹⁰) er mwyn hybu diogelwch y cleifion.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd clinigol wythnosol cyn eu rhannu â'r tîm ehangach yn ystod y cyfarfodydd practis. Y nod oedd rhannu gwybodaeth berthnasol, nodi unrhyw wersi i'w dysgu ac atal yr un peth rhag digwydd eto.

Gwnaethom nodi bod gan y meddygon teulu wybodaeth dda am y canllawiau cyfredol a luniwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)¹¹. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth o drafodaethau ffurfiol am y canllawiau hynny gydag aelodau perthnasol eraill o'r tîm.

Cadarnhaodd uwch aelodau o'r staff fod rhybuddion diogelwch perthnasol yn cael eu rhannu'n ad hoc â thîm y practis fel y bo angen ac, fel arfer, yn ystod y cyfarfodydd tîm misol. Disgrifiwyd trefniadau i drafod arfer gorau a chanllawiau proffesiynol â'r staff a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt amdanynt.

Ychydig o gofnodion cyfarfodydd a oedd ar gael (i gefnogi'r hyn a drafodir uchod) i'r staff eu darllen; yn enwedig y rhai nad oeddent yn bresennol. Cynghorir bod y practis yn cadw cofnodion o bob cyfarfod ac yn rhannu'r cofnodion hynny â phob aelod o staff y practis, p'un a oeddent yn bresennol yn y cyfarfodydd ai peidio. Dylid gwneud hyn er mwyn cyfathrebu'n effeithiol a rhannu gwersi i'w dysgu fel y gellir hybu diogelwch y cleifion.

¹⁰ Cronfa ddata ganolog o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion yw'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu

¹¹ Rôl y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal yw darparu canllawiau awdurdodol, cadarn a dibynadwy i gleifion, gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyhoedd am yr 'arfer gorau' presennol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod digwyddiadau arwyddocaol a chanllawiau newydd yn cael eu rhannu â'r staff mewn ffordd ffurfiol ac amserol bob amser.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd desg y dderbynfa yn y brif ystafell aros. Gallai hyn ei gwneud hi'n anodd cadw preifatrwydd a diogelu data cleifion, pan fo angen i'r staff siarad â'r cleifion sy'n ymweld â'r practis, gyda gwybodaeth bersonol neu sensitif. Fodd bynnag, roedd y practis wedi ystyried preifatrwydd y cleifion a diogelu data fel rhan o'r gwaith adnewyddu. Roedd ystafell breifat fach ar gael wrth ymyl desg y dderbynfa er mwyn cynnal unrhyw sgysiau preifat. Hefyd, dywedwyd wrthym y gallai mamau fynd i'r ystafell hon i fwydo eu babanod ar y fron, ar gais.

Roedd galwadau ffôn i mewn ac allan o'r practis yn cael eu derbyn a'u gwneud mewn swyddfa yn union y tu ôl i'r dderbynfa. Roedd perygl y gallai cleifion a oedd yn sefyll wrth ddesg y dderbynfa neu'n eistedd mewn rhai seddi yn yr ardal aros glywed rhai sgysiau am nad oedd drws rhwng y dderbynfa a'r swyddfa. Fodd bynnag, cawsom sicrwydd llafar bod y practis eisoes yn mynd i'r afael â'r broblem hon a'i fod yn disgwyl i ddrysau gwydr hyd llawn gael eu gosod rhwng y ddwy ardal.

Roedd ardal is yn y dderbynfa wrth ymyl y sgrin mewngofnodi. Mae'n bosibl y gallai unrhyw un a oedd yn mynd i'r ardal hon neu unrhyw un a oedd yn mewngofnodi weld gwybodaeth am gleifion ar y ddwy sgrin y tu ôl i ddesg y dderbynfa. Roeddent i'w gweld hefyd drwy ffenestr yr ystafell breifat fach. Gwnaethom godi'r mater hwn â rheolwr y practis a rhoddodd sicrwydd llafar i ni y byddai'n mynd ati ar unwaith i archebu hidlydd sgrin preifatrwydd a'i osod ar y sgriniau.

Roedd trefniadau llywodraethu gwybodaeth da ar waith mewn perthynas â diogelwch data electronig am gleifion a'u cofnodion meddygol. Roedd copïau caled o nodiadau meddygol yn cael eu cadw dan glo oddi ar y safle.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod drysau gwydr hyd llawn yn cael eu gosod rhwng y dderbynfa a'r swyddfa y tu ôl i'r dderbynfa.
- Bod hidlydd sgrin preifatrwydd yn cael ei osod ar y sgriniau y tu ôl i ddesg y dderbynfa.

Cadw cofnodion

Fel y disgrifiwyd eisoes, gwnaethom adolygu sampl o gofnodion meddygol cleifion. Roedd y cofnodion hyn mewn fformat electronig hawdd ei lywio ac roeddent wedi'u diogelu rhag mynediad heb awdurdod.

Roedd cynnwys y cofnodion meddygol yn glir ac yn gryno. Roedd y nodiadau'n ddigon manwl i'w defnyddio i helpu i wneud penderfyniadau yn ystod ymgynoriadau dilynol a chynllunio gofal a thriniaeth y cleifion yn y dyfodol. Gwelsom fod yr holl gofnodion yn cynnwys gwybodaeth allweddol fel enw'r clinigydd a oedd yn gwneud y nodiadau, y dyddiad a chanlyniad yr ymgynghoriad. Gellid gweld bod y cofnodion wedi cael eu cwblhau'n amserol ar ôl pob ymgynghoriad. Gwelsom fod codau Read¹² yn cael eu defnyddio'n effeithiol yn y sampl o gofnodion meddygol a adolygwyd gennym.

Disgrifiwyd trefniadau i grynhoi gwybodaeth yng nghofnodion meddygol electronig y cleifion. Dywedwyd wrthym mai dim ond y staff clinigol a oedd yn crynhoi'r cofnodion. Mae crynhoi gwybodaeth yn helpu i sicrhau y gall y meddygon teulu a'r nyrsys gael gafael yn hawdd ar hanes meddygol blaenorol perthnasol claf er mwyn helpu i wneud penderfyniadau effeithiol ac effeithlon am ofal a thriniaeth.

¹² Cyfres o godau clinigol cyfrifiadurol yw codau Read a luniwyd i'w defnyddio ym maes Gofal Sylfaenol er mwyn cofnodi'r gofal cyffredin a roddir i glaf. Mae'r codau hefyd yn hwyluso gweithgarwch archwilio ac adrodd ym maes gofal sylfaenol.

Ni welsom fod proses ar waith i gynnal archwiliadau rheolaidd o ansawdd y data a gofnodir yng nghofnodion y cleifion, yn erbyn safon gytûn, a chadarnhaodd uwch aelodau o'r staff nad oedd cofnodion y cleifion yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r data a gofnodir yng nghofnodion y cleifion, fel rhan o weithgarwch sicrhau ansawdd.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda yn gyffredinol. Roedd y tîm staff yn hapus yn eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda. Roedd y tîm staff i gyd hefyd yn gweithio mewn ffordd a oedd yn canolbwyntio ar y cleifion.

Nodwyd y byddai'n fuddiol adolygu rhai polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu trefniadau presennol y practis.

Mae angen gwneud gwelliannau hefyd i ddangos bod gwiriadau recriwtio addas yn cael eu cwblhau'n llawn.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Ar adeg ein harolygiad, roedd pum meddyg teulu yn berchen ar y practis ac yn ei weithredu. Roedd rheolwr practis llawn amser hefyd yn gweithio yno ac yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Roedd hi hefyd yn rheoli'r practis cangen ym Mhentwyn.

Roedd meddyg teulu dynodedig yn arwain ar faterion yn ymwneud â llywodraethu, sicrhau ansawdd a gwella ansawdd. Roedd ffeil llywodraethu clinigol electronig ar gael ond ni welsom dystiolaeth o unrhyw archwiliadau, eu canlyniadau nac unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd yn eu sgil.

Roedd hi'n ymddangos bod gan bob aelod o'r staff meddygol a nysio gymhellant i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fentrau iechyd, canllawiau ac ymwybyddiaeth o rybuddion diogelwch cleifion cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd diffyg arweinyddiaeth glinigol i sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei

rhannu a bod cynlluniau'n cael eu gwneud i weithredu arni, er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei rhoi ar waith yn ymarferol yn y practis.

Gwelsom fod gan y tîm o staff gweinyddol nifer o rolau a chyfrifoldebau. Roedd hyn yn golygu y gallai'r staff weithio ar ran ei gilydd yn ystod absenoldebau, gan leihau'r risg o darfu ar wasanaethau i'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod dau aelod o staff y dderbynfa yn staff newydd a oedd wrthi'n dysgu'r prif brosesau a gweithdrefnau.

Roedd parodrwydd a chymhelliant clir ymhlith tîm y practis i helpu a datblygu staff hen a newydd drwy rannu gwersi i'w dysgu a dysgu drwy brofiad, er mwyn gwella'r gwasanaethau a ddarperir i'r cleifion. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth o ddiwrnodau na chyrsgiau astudio allanol rheolaidd. Y rheswm am hyn oedd nad oedd gan y practis fatrics hyfforddiant hwylus na thystiolaeth o dystysgrifau hyfforddiant er mwyn cofnodi a monitro unrhyw hyfforddiant a ddilynir gan y staff meddygol, y staff nyrsio neu'r staff gweinyddol.

Byddai defnyddio matrices hyfforddiant wedi'i gwblhau a chadw copïau o dystysgrifau hyfforddiant yn sicrhau y gellir trefnu unrhyw hyfforddiant gloywi a chwblhau'r hyfforddiant hwnnw cyn i'r dyddiad ddod i ben. Yn ogystal, pan fo angen tystiolaeth o hyfforddiant (dysgu a chyfranogol) ar y tîm nyrsio er mwyn cael ailddilysiad¹³ gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth; gellid cael gafael ar y dystiolaeth honno'n hawdd cyn y dyddiadau ailddilysu. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i reolwr y practis am iddi ddweud wrthym ei bod hi'n rhannol gyfrifol am gymeradwyo fel rhan o'r broses ailddilysu a gynhelir bob tair blynedd.

Nodwyd bod y meddygon teulu yn trafod achosion clinigol yn anffurfiol bob dydd. Fodd bynnag, nid oedd y staff nyrsio yn bresennol yn ystod y cyfarfodydd hynny nac yn cael eu gwahodd iddynt. Felly, nododd y tîm arolygu y dylai pob aelod perthnasol o'r staff clinigol fynychu cyfarfodydd clinigol penodol rheolaidd at ddibenion dysgu a pharhad gofal cleifion.

Roedd y meddygon teulu a rheolwr y practis yn cynnal cyfarfodydd practis wythnosol gan drafod cymysgedd o bynciau busnes a chlinigol. Nid oedd

¹³ Ailddilysu yw'r broses newydd y mae'n rhaid i bob nyrs a bydwraig ei dilyn er mwyn adnewyddu eu cofrestrriad â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

unrhyw agenda na chofnodion ffurfiol felly nid oedd modd sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cymryd a phwy oedd yn gyfrifol amdanynt.

Roedd cyfarfodydd staff eraill yn cael eu cynnal unwaith y mis fel arfer fel y nodwyd eisoes, ond cyfarfodydd anffurfiol oedd y rhain ac nid oedd agendâu na chofnodion ar eu cyfer. Er bod rhywfaint o dystiolaeth o roi gwybodaeth (a oedd yn berthnasol i swyddogaethau'r practis), prin oedd y dystiolaeth bod trafodaethau deuffordd yn cael eu hannog na bod cyfleoedd i'r staff gynnig awgrymiadau a syniadau.

Fel y nodwyd eisoes, roedd y practis yn rhan o grŵp clwstwr meddygon teulu lleol. Dywedwyd wrthym fod y meddygon teulu a rheolwr y practis yn mynd i gyfarfodydd y clwstwr lleol yn rheolaidd. Mae hyn yn helpu i hybu gwaith y clwstwr ac ymgysylltiad â'r clwstwr yn ogystal â rhannu gwersi i'w dysgu. Fodd bynnag, nid oedd dystiolaeth i ddangos sut roedd gwybodaeth berthnasol o'r cyfarfodydd clwstwr hyn yn cael ei rhannu â meddygon eraill y practis a staff y practis.

Roedd gan y practis gynllun datblygu tair blynedd. Roedd y cynllun hwn yn cynnwys nifer o gamau gweithredu i gynnal a datblygu'r gwasanaethau a ddarperir yn ogystal ag amserlenni cwblhau.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael yn electronig i lywio'r staff yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i gael gafael arnynt. Er bod polisiâu a gweithdrefnau ar gael, nodwyd nad oedd llawer ohonynt yn adlewyrchu'r trefniadau presennol a ddisgrifiwyd gan y staff ac roedd angen diweddarau'r rhan fwyaf ohonynt a defnyddio system rheoli fersiynau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod polisiâu a gweithdrefnau'r practis yn cael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu trefniadau presennol y practis yn gywir, eu bod yn gyfredol a bod y fersiynau'n cael eu rheoli.
- Bod archwiliadau perthnasol yn cael eu cynnal a bod canlyniadau a chamau gweithredu yn cael eu rhannu â'r tîm cyfan.

- Bod cofnod o bob hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant arall perthnasol yn cael ei gadw ar gyfer pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis.
- Bod gwybodaeth berthnasol o gyfarfodydd clwstwr yn cael ei rhannu â'r meddygon teulu sy'n bartneriaid yn y practis a staff y practis a dangos sut y caiff datblygiadau clwstwr eu cynnwys yng nghynllun datblygu'r practis.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd staff y practis y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio eu priod rolau a chyfrifoldebau, a oedd yn cyfrannu at weithrediad cyffredinol y practis. Roedd y staff a oedd yn gweithio yn y practis yn cyflawni dwy rôl ac yn gweithio'n hyblyg. Roedd hyn yn golygu y gallai'r staff weithio ar ran ei gilydd yn ystod absenoldebau, fel y nodwyd yn gynharach, gan leihau'r risg o darfu ar wasanaethau i'r cleifion.

Roedd sylwadau'r staff yn dangos eu bod yn cael cefnogaeth i gael hyfforddiant mewnol a rhywfaint o hyfforddiant/cyrsiau e-ddysgu sy'n berthnasol i'w rôl. Roedd y wybodaeth am hyfforddiant a ddarparwyd gan uwch aelodau o'r staff yn dangos nad oedd pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf, fel y nodwyd uchod.

Disgrifiwyd trefniadau i gynnal arfarniadau staff blynyddol a gwelsom enghreifftiau o arfarniadau a gwblhawyd yn y sampl o ffeiliau staff a adolygwyd gennym. Bydd proses arfarnu flynyddol yn helpu i nodi anghenion perfformiad, hyfforddiant a datblygu'r staff. Gall hyn hefyd fod yn gyfle i'r rheolwyr roi adborth i'r staff ar eu gwaith.

Gwnaethom adolygu sampl o ffeiliau'r staff. Nid oedd tystiolaeth yn ffeil pob aelod o'r staff i ddangos bod gwiriadau recriwtio, fel geirdaon ysgrifenedig a gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i'r lefel ofynnol, wedi cael eu cynnal i ddangos ei fod yn addas i weithio yn y practis. Yn ogystal, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod cynllun sefydlu cadarn ar waith a fyddai'n cwmpasu pob agwedd ar sefydlu ynghyd â gofynion hyfforddiant gorfodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf
- Bod gwiriadau recriwtio addas wedi cael eu cwblhau, er enghraifft, gwiriad ar y lefel gywir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o'r staff, a geir daon i sicrhau bod y staff yn addas i weithio yn y practis.
- Bod rhestr sefydlu drylwyr ar waith i sicrhau bod proses gyson yn cael ei dilyn mewn perthynas â phob aelod newydd o staff.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau meddygon teulu. Bydd practisau meddygon teulu yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae practisau meddygon teulu yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw faterion roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol Pontprennau

Dyddiad arolygu: 5 Tachwedd 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: [Canolfan Feddygol Pontprennau]

Dyddiad arolygu: [5 Tachwedd 2018]

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

[]

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
[Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol: Bod gan bob claf fynediad cyfartal at wybodaeth hybu iechyd berthnasol yn y practis Darparu taflenni fel y gall cleifion eu darllen a mynd â nhw adref gyda nhw]	[1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd]	[Fel practis rydym yn ceisio hyrwyddo amgylchedd di-bapur felly rydym yn bwriadu creu banc o daflenni a'u harbed ar ein gyriant a rennir y gellir eu hargraffu yn hawdd ar gais y claf. Mae'r gwasanaeth hwn eisoes wedi'i hysbysebu ar ein 3 sgrin gwybodaeth i gleifion yn y practis. Yn ogystal, mae ein gwefan yn cynnwys amrywiaeth o	[Dirprwy Reolwr y Practis]	[Parhaus oherwydd newidiadau o ran gofynion]

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>[Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod pob claf yn ymwybodol bod modd iddo gael hebryngwr cyn iddo gael ymgynghoriad neu driniaeth, yn yr ystafell aros a'r ystafelloedd perthnasol</p> <p>Bod gwybodaeth am hebryngwyr yn cael ei harddangos yn glir i bob claf ei gweld yn yr ardal aros a'r ystafelloedd ymgynghori/triniaeth.]</p>	<p>[4.1 Gofal Gydag Urddas]</p>	<p>wybodaeth a thafenni hunangymorth ac rydym yn eu monitro'n barhaus]</p> <p>[Mae gwybodaeth am ein polisi hebryngwyr ar gael ar ein 3 sgrin gwybodaeth i gleifion yn yr adeilad a hefyd ar yr hysbysfyrddau yn ein 2 ystafell aros.</p> <p>Ers yr arolygiad rydym wedi cynnwys y poster polisi hebryngwyr ym mhob ystafell glinigol.]</p>	<p>[Dirprwy Reolwr y Practis]</p>	<p>[Cwblhawyd]</p>
<p>[Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod y daflen wybodaeth i gleifion yn cael ei diweddarau er mwyn cynnwys</p>	<p>[4.2 Gwybodaeth ar gyfer Cleifion]</p>	<p>[Mae proses Gweithio i Wella GIG Cymru eisoes wedi'i harddangos yn ein 2 ystafell aros yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn ogystal, mae tafenni gwybodaeth eisoes ar gael ar gais o'r Dderbynfa ac o wefan y practis.</p> <p>Mae'r wybodaeth hon eisoes wedi cael</p>	<p>[Dirprwy Reolwr y Practis]</p>	<p>[Cwblhawyd]</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>cyfeiriad perthnasol at broses Gweithio i Wella GIG Cymru</p> <p>Bod pob claf yn ymwybodol o broses Gweithio i Wella drwy arddangos y wybodaeth hon yn briodol yn y practis</p> <p>Bod taflenni gwybodaeth am Gweithio i Wella ar gael yn gyfleus i'r cleifion eu darllen a mynd â nhw adref gyda nhw.</p>		<p>ei hychwanegu at daflen y practis.</p>		
<p>[Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod y broses i hysbysu meddygon am faterion y mae angen rhoi sylw brys iddynt drwy ddefnyddio nodiadau 'post-it' yn cael ei hadolygu, er mwyn sicrhau trefniadau cyfathrebu cadarn a sicrhau bod camau priodol wedi cael eu cymryd mewn perthynas â chleifion</p> <p>Bod proses ddilydol ychwanegol gadarn yn cael ei rhoi ar waith a bod modd ei</p>	<p>[3.2 Cyfathrebu'n effeithiol]</p>	<p>[Mewn perthynas â hysbysu meddygon am negeseuon brys, rydym yn bwriadu treialu llyfr gwaith dyddiol a fydd yn cael ei gadw yn yr ystafell weinyddol. Gall y clinigwyr adolygu a gweithredu ar y negeseuon a bydd gan y tîm gofnod o'r tasgau a gwblhawyd. Ar ddiwedd y dydd caiff y llyfr hwn ei archwilio gan y tîm gweinyddol i sicrhau y caiff pob tasg ei chwblhau.</p> <p>Mae protocol ar waith bellach i sicrhau y gwneir gwaith dilynol ar bob canlyniad gan sicrhau y caiff cleifion eu galw yn ôl. Caiff hyn ei archwilio gan y tîm</p>	<p>[Rheolwr y Practis/Dirprwy Reolwr y Practis]</p>	<p>[Diwedd mis Ionawr 2019]</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>harchwilio, er mwyn sicrhau bod cleifion wedi cael apwyntiad dilynol neu wedi casglu eu presgripsiwn er mwyn dechrau'r driniaeth angenrheidiol, lle bo hynny'n berthnasol</p> <p>Bod y dogfennau a'r wybodaeth a ddarperir fel rhan o gynodebau rhyddhau'r ysbytai i feddygon teulu yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau trefniadau cyfathrebu cadarn.]</p>		<p>gweinyddol yn wythnosol.</p> <p>Dychwelir unrhyw gynodebau rhyddhau aneglur i'r adran berthnasol a gwneir cais arall. Gan fod y rhan fwyaf o gynodebau rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn dod i'r practis yn electronig, byddwn yn parhau i'w hanfon ymlaen at glinigwyr yn electronig i weithredu arnynt.]</p>		
<p>[Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod yr apwyntiadau sydd ar gael ar y diwrnod a'r apwyntiadau y gellir eu trefnu ymlaen llaw yn cael eu hadolygu</p> <p>Bod pob claf yn gwybod sut i ddefnyddio'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau</p>	<p>[5.1 Mynediad amserol]</p>	<p>[Mae'r practis yn adolygu'r system apwyntiadau yn rheolaidd ac yn gwrandao ar adborth cleifion. Ers dyddiad yr arolygiad mae'r practis wedi cyflogi meddyg teulu cyflogedig ychwanegol i greu mwy o apwyntiadau ar yr un diwrnod ac apwyntiadau ymlaen llaw sydd wedi galluogi'r meddygon teulu sy'n bartneriaid i adolygu eu hamserlen gwaith a chreu mwy o hyblygrwydd gydag amseroedd apwyntiadau.</p> <p>Mae'r neges ffôn y tu allan i oriau yn</p>	<p>[Rheolwr y Practis]</p>	<p>[Cwblhawyd]</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Bod y ffaith bod gwasanaeth meddyg teulu ar gael dros y ffôn yn unig rhwng 5.30pm a 6.30pm yn cael ei chyfleu'n glir i gleifion y feddygfa am nad yw gwasanaeth y tu allan i oriau'r bwrdd iechyd yn agor nes 6.30pm.]</p>		<p>nodi'n glir fod gwasanaeth brys ar gael yn y cyfnod interim rhwng 5.30pm a 6.30pm. Rydym wedi ychwanegu manylion ynglŷn â sut i gysylltu â'r gwasanaeth y tu allan i oriau at ein bwrdd amseroedd agor yn rhan flaen y practis.]</p>		
<p>[Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod mynediad drwy ddrysau'r fynedfa yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau y gall pob claf fynd i mewn i'r practis yn ddiogel ac yn annibynnol.</p> <p>Bod ystyriaeth deg yn cael ei rhoi i gyfleusterau parcio i'r cleifion yn y practis, yn enwedig y rhai â phroblemau symudedd.</p> <p>Bod y ffurflen cofrestru cleifion yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau bod pob nam yn cael ei gofnodi, fel problemau</p>	<p>[6.1 Cynllunio Gofal er mwyn hyrwyddo annibyniaeth]</p>	<p>[Mae'r practis eisoes wedi cyflwyno cais am Grant Gwelliant i osod drysau awtomatig wrth brif fynedfa'r adeilad.</p> <p>Mae'r prif faes parcio i gleifion wedi'i gadw ar gyfer cleifion sydd ag apwyntiadau yn y feddygfa. Mae unrhyw aelodau o staff ategol yn parcio oddi ar y safle i sicrhau hyn. Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau i'n system apwyntiadau i sicrhau llif mwy amserol o gleifion drwy gydol y dydd. Yn ogystal â hyn rydym wedi dechrau cyfathrebu â'r cyngor lleol er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon parcio yn y cyffiniau.</p> <p>Mae'r ffurflen cofrestru cleifion eisoes wedi cael ei diweddarau ers yr arolygiad.]</p>	<p>[Rheolwr y Practis]</p>	<p>[Parhaus]</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
symudedd.]				
<p>[Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Ei fod yn datblygu system i gofnodi pryderon neu gwynion llafar gan gleifion neu eu perthnasau/gofalwyr ac ymateb iddynt, yn unol â phroses Gweithio i Wella.]</p>	[6.3 Gwrando a dysgu o adborth]	[Mae pob cwyn/pryder llafar bellach yn cael ei ddogfennu ar y gyriant a rennir ynghyd â'r ffolder cwynion ysgrifenedig.]	[Rheolwr y Practis]	[Cwblhawyd]
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
<p>[Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod y cynllun parhad busnes yn cael ei ddiweddarau</p> <p>Bod pob aelod o staff cymwys yn cwblhau asesiad risg ac yn cael hyfforddiant ar ddefnyddio offer sgrin arddangos.]</p>	[2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch]	<p>[Caiff y Cynllun Parhad Busnes ei ddiweddarau.</p> <p>Roedd asesiad risg staff eisoes wedi cael ei gwblhau ar adeg yr arolygiad ond ni ofynnwyd amdano.</p> <p>Caiff hyfforddiant cyfarpar sgrin arddangos ei gwblhau ar gyfer staff newydd a'i ddiweddarau ar gyfer staff presennol yn y Flwyddyn Newydd.]</p>	[Rheolwr y Practis/Dirprwy Reolwr y Practis]	[Diwedd mis Ionawr 2019]

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>[Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod y polisi rheoli heintiau yn cael ei adolygu i adlewyrchu'r amgylchedd sydd newydd gael ei adnewyddu, a'i fod yn cyfeirio at weithdrefnau perthnasol.]</p>	<p>[2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadhalogi]</p>	<p>[Bydd y polisi a ddiweddarwyd yn cael ei gwblhau.]</p>	<p>[Dirprwy Reolwr y Practis/Nyrs y Practis]</p>	<p>[Diwedd mis Chwefror 2019]</p>
<p>[Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod clinigwyr yn defnyddio dull cyson i gofnodi rhesymau dros ragnodi meddyginiaeth neu derfynu meddyginiaeth yng nghofnodion meddygol y cleifion</p> <p>Bod offer brys yn cael ei wirio a'i gofnodi bob wythnos</p> <p>Bod pob aelod o staff y practis yn</p>	<p>[2.6 Rheoli Meddyginiaethau]</p>	<p>[Mae'r meddygon teulu sy'n bartneriaid wedi penderfynu ar ddull cytûn ar gyfer dogfennu newidiadau mewn meddyginiaeth cleifion. Caiff rheswm ei nodi ar gyfer unrhyw feddyginiaeth sy'n cael ei thynnu'n ôl.</p> <p>Bydd nyrs y practis yn gwirio'r cyfarpar brys yn wythnosol yn lle yn fisol.</p> <p>Roedd hyfforddiant dadebru wedi'i drefnu ar gyfer pythefnos ar ôl dyddiad yr arolygiad ac mae bellach wedi cael ei gwblhau. Trefnir eisoes bod unrhyw aelodau o staff nad oeddent yn gallu mynd i'r sesiwn honno yn cwblhau'r</p>	<p>[Y Tîm Clinigol]</p>	<p>[Cwblhawyd]</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>cwblhau hyfforddiant dadebru blynyddol.]</p>		sesiwn yn y Flwyddyn Newydd.]		
<p>[Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ym maes diogelu plant ac oedolion a bod pob aelod o'r staff yn diweddarau ei hyfforddiant yn rheolaidd.]</p>	<p>[2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed]</p>	<p>[Caiff copïau caled o dystysgrifau eu casglu gan bob aelod o staff i'w cadw ar ffeil. Bydd aelodau newydd o staff yn cymryd rhan mewn hyfforddiant yn y Flwyddyn Newydd.]</p>	<p>[Rheolwr y Practis]</p>	<p>[Diwedd mis Ionawr 2019]</p>
<p>[Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod digwyddiadau arwyddocaol a chanllawiau newydd yn cael eu rhannu â'r staff mewn ffordd ffurfiol ac amserol bob amser.]</p>	<p>[3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol]</p>	<p>[Caiff pob cyfarfod digwyddiadau arwyddocaol ei ddogfennu a hysbysir staff drwy e-bost am ddigwyddiadau arwyddocaol newydd sydd i'w gweld ar y ffeil a rennir]</p>	<p>[Uwch bartner/Rheolwr y Practis]</p>	<p>[Parhaus]</p>
<p>[Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p>	<p>[3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg]</p>	<p>[Hysbyswyd arolygwyr ar y diwrnod bod y drysau ar gyfer yr ardal hon wedi cael eu harchebu a bod y gwasanaeth yn]</p>	<p>[Rheolwr y Practis]</p>	<p>[Parhaus]</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Bod drysau gwydr hyd llawn yn cael eu gosod rhwng y dderbynfa a'r swyddfa y tu ôl i'r dderbynfa i gadw cyfrinachedd.</p> <p>Bod hidlydd sgrin preifatrwydd yn cael ei osod ar y sgriniau y tu ôl i ddesg y dderbynfa.]</p>	Cyfathrebu]	<p>aros iddynt gael eu gosod. Gan fod hyn yn gynnyrch pwrpasol mae oedi o 8 wythnos.</p> <p>Mae hidlyddion sgrin preifatrwydd eisoes wedi cael eu gosod.]</p>		
<p>[Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r data a gofnodir yng nghofnodion y cleifion, fel rhan o weithgarwch sicrhau ansawdd.]</p>	[3.5 Cadw cofnodion]	[Cynhelir archwiliad o drefniadau cadw cofnodion a chofnodi data yng nghofnodion y cleifion a chaiff y wybodaeth ei rhannu ac yna ei hailarchwilio ar ôl chwe mis ac yna yn flynyddol.]	[Dr M Pomeroy]	[Parhaus]
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>[Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p>	[Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd]	<p>[Mae polisïau a gweithdrefnau'r practis wrthi'n cael eu diweddarau.</p> <p>Bydd y meddyg teulu sy'n arweinydd y clwstwr yn dosbarthu cofnodion o bob</p>	[Dr Pomeroy	[Parhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Bod polisïau a gweithdrefnau'r practis yn cael eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu trefniadau presennol y practis yn gywir, eu bod yn gyfredol a bod y fersiynau'n cael eu rheoli.</p> <p>Bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal a bod canlyniadau a chamau gweithredu yn cael eu rhannu â'r tîm cyfan.</p> <p>Bod cofnod o bob hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant arall perthnasol yn cael ei gadw ar gyfer pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis.</p> <p>Bod gwybodaeth berthnasol o gyfarfodydd clwstrwr yn cael ei rhannu â'r meddygon teulu sy'n bartneriaid yn y practis a staff y practis a dangos sut y caiff datblygiadau clwstrwr eu cynnwys yng nghynllun datblygu'r practis.]</p>		<p>cyfarfod clwstrwr.</p> <p>Caiff archwiliad o'r data a gofnodir ei rhannu â phawb yn nhîm y practis. Caiff unrhyw archwiliadau a dadansoddiadau o ddigwyddiadau arwyddocaol eu rhannu â thîm llawn y practis.</p> <p>Bydd copiâu o hyfforddiant gorfodol yn cael eu casglu a'u cadw yn ffeiliau personol pob aelod o staff.</p> <p>]</p>	Rheolwr y Practis]	Ebrill 2019]

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>[Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf</p> <p>Bod gwiriadau recriwtio addas wedi cael eu cwblhau, er enghraifft, gwiriad ar y lefel gywir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o'r staff, a geir daon i sicrhau bod y staff yn addas i weithio yn y practis.</p> <p>Bod rhestr sefydlu drylwyr ar waith i sicrhau bod proses gyson yn cael ei dilyn mewn perthynas â phob aelod newydd o staff.]</p>	<p>[7.1 Y Gweithlu]</p>	<p>[Mae'r holl staff clinigol eisoes wedi cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Caiff y staff gweinyddol eu gwirio yn y Flwyddyn Newydd.</p> <p>Mae'r rhestr sefydlu staff wedi cael ei diweddarau ers yr arolygiad.</p> <p>Bydd yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf erbyn 30 Ebrill.]</p>	<p>[Rheolwr y Practis]</p>	<p>[Diwedd mis Ebrill 2019]</p>

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): [Julie Fraser]

Teitl swydd: [**Rheolwr y Practis**]
Dyddiad: [**01.02.19**]